



Prifysgol Cymru
University of Wales



colegsirgâr

Disgrifiad Rôl ar gyfer Aelodau Annibynnol

Cyflwyniad a Chwmpas

1. Mae'r disgrifiad rôl hwn yn crynhoi dyletswyddau, cyfrifoldebau a rhinweddau personol aelodau annibynnol y Cyngor. Mae'n berthnasol i aelodau annibynnol Cyngorau Prifysgol Cymru (PC) a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (Y Drindod). Mae'r termau 'Cyngor' a 'chorff llywodraethu' yn golygu Cyngor PC a Chyngor Y Drindod fel y bo'n briodol ac mae'r termau 'Prifysgol' a 'sefydliad' yn golygu PC a'r Drindod fel y bo'n briodol. Mae dogfen gyfwerth yn berthnasol i aelodau annibynnol Bwrdd Coleg Sir Gâr.
2. Mae disgrifiad y rôl yn eistedd ochr yn ochr, ac yn crynhoi agwedd ar, y *Cod Ymarfer ar gyfer Aelodau Cyngor ('y Cod')*, sy'n rhoi arweiniad i aelodau'r Cyngor ar:
 - y safonau ymddygiad ac atebolrwydd a ddisgwylir ganddynt yn eu rôl fel llywodraethwyr y Brifysgol ac ymddiriedolwyr elusen;
 - egwyddorion a gwerthoedd y Brifysgol a gwasanaeth cyhoeddus yn gyffredinol;
 - ymagwedd y Brifysgol at faterion fel cyfrinachedd a datganiadau o ddiddordeb.

Gofynnir i bob aelod o'r Cyngor lofnodi'r *Cod* wrth gael eu penodi a chadarnhau eu bod yn parhau i dderbyn ei delerau ac amodau bob blwyddyn.

3. Mae'r disgrifiad rôl wedi'i seilio ar y canlynol, a ddarperir ar gyfer aelodau newydd y Cyngor wrth gael eu penodi a gellir eu diweddarau o dro i dro.
 - Siarter, Statudau ac Ordinhadau'r Brifysgol ('yr offerynnau statudol');
 - *Cod Llywodraethu Addysg Uwch* y CPC;
 - rheoliadau ac arweiniad y Comisiwn Elusen.
4. Caiff y disgrifiad rôl ei adolygu o bryd i'w gilydd gan Bwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'r Cyngor a chaiff ei gadarnhau ar ddechrau unrhyw broses recriwtio ar gyfer aelodau newydd y Cyngor.

Trosolwg o ddyletswyddau aelodaeth

5. Mae aelodau'n gyfrifol am ymarfer y swyddogaethau a grymoedd a amlinellir yn yr offerynnau statudol. Mae gan aelodau gyfrifoldeb am sicrhau bod y corff llywodraethu'n gweithredu'n unol â'r offerynnau statudol a gyda rheolau a rheoliadau mewnol y sefydliad. Dylent ofyn am gyngor gan y Clerc os bydd unrhyw ansicrwydd.
6. Mae gan aelodau rôl allweddol i'w chwarae wrth sicrhau bod busnes y corff llywodraethu'n cael ei weithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac mewn ffordd sy'n addas ar gyfer ymgymryd â busnes cyhoeddus yn gywir. Disgwylir i bob aelod baratoi'n iawn ar gyfer cyfarfodydd, iddynt fynychu pob cyfarfod oni bai bod rhesymau eithriadol yn bodoli, i wneud cyfraniadau rhesymegol ac adeiladol i ddadleuon a darparu eu gwybodaeth a'u harbenigedd i'r corff llywodraethu lle bo angen.

Disgrifiad Rôl ar gyfer Aelodau Annibynnol

7. Yn ogystal â'u haelodaeth o'r corff llywodraethu, fel arfer, bydd gofyn i aelodau ymuno ag un neu fwy o'u bwyllgorau sefydlog. Efallai y bydd gofyn iddynt hefyd fod yn arweinydd dynodedig ar gyfer maes busnes penodol. O bryd i'w gilydd, efallai y caiff aelodau eu gwahodd i ymgymryd â rôl cyfarwyddwr un o is-gwmnïau'r sefydliad.
8. Disgwylir i aelodau gefnogi'r sefydliad wrth ei weithgareddau myfyrwyr a chymuned, gan gynnwys drwy fynychu digwyddiadau seremonïol a chyflwyniadol.
9. Mae gan aelodau gyfrifoldeb torfol am y penderfyniadau a wneir gan y corff llywodraethu.
10. Rhaid i aelodau gadw trafodaethau'r corff llywodraethu a safbwyntiau a leisir gan aelodau unigol yn gyfrinachol. Mae dyletswydd cyfrinachedd yn parhau hyd yn oed pan na fydd unigolyn yn aelod mwyach.

Safonau

11. Disgwylir i aelodau ddilyn Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a amlinellwyd gan y Pwyllgor Nolan ar Safonau Bywyd Cyhoeddus, sy'n cofleidio anhunanoldeb, unplygrwydd, gwrthrychedd, atebolrwydd, didwylledd, gonestrwydd ac arweinyddiaeth. Rhaid iddynt hefyd sicrhau bod y corff llywodraethu'n ymddwyn yn unol â'r Egwyddorion hyn, a restrir yn llawn yn y *Cod*.
12. Mae'n ganolog i'r dull o gynnal busnes cyhoeddus yn gywir bod aelodau'r corff llywodraethu'n gweithredu ac yn cael eu gweld yn gweithredu'n amhleidiol, ac i beidio â chael eu dylanwadu gan berthnasoddedd cymdeithasol neu fusnes wrth ymgymryd â'u rôl fel llywodraethwyr. Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu'r diffiniad o annibyniaeth a ddatblygwyd gan brifysgolion Cymru, ac fe all rhai amgylchiadau penodol atal penodi unigolyn fel aelod annibynnol o'r corff llywodraethu. Disgwylir i aelodau a benodir ddatgelu'r cyfryw fuddiannau'n llawn ac mewn ffordd amserol bob blwyddyn yn unol â'r gweithdrefnau a gymeradwywyd gan y corff llywodraethu. O hynny ymlaen rhaid iddynt, cyn gynted ag sy'n ymarferol, ddatgelu unrhyw fuddiannau sydd ganddynt mewn unrhyw fater a drafodir a derbyn dyfarniad y Cadeirydd mewn perthynas â rheolaeth y sefyllfa honno. Ceir canllawiau manwl ar wneud a rheoli gwrthdrawiadau buddiannau yn y *Cod*.
13. Mae'r sefydliad yn elusen gofrestredig ac felly ei gorff llywodraethu yw corff llywodraethu'r elusen. Mae aelodau'r corff llywodraethu hefyd yn ymddiriedolwyr i'r elusen, mae gan Ymddiriedolwyr gyfrifoldeb am sicrhau bod y corff llywodraethu'n goruchwyllo'r defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau'r sefydliad er hyrwyddo ei ddibenion elusengar, cynnal ei ddichonoldeb ariannol hir-dymor, a diogelu ei asedau, a bod mecanweithiau iawn yn bodoli i sicrhau rheolaeth ariannol ac i atal twyll.
14. O dan reolau'r Comisiwn Elusennau, mae amgylchiadau penodol yn atal penodi unigolyn fel ymddiriedolwr. Caiff yr amgylchiadau hyn eu gwirio cyn gwneud penodiad. Ar ôl penodiad, caiff y broses datgan buddiannau blynyddol hefyd ei defnyddio fel mecanwaith i gadarnhau parhad cymhwysedd aelodau i weithredu fel ymddiriedolwyr a rhaid i aelodau roi gwybod i'r Clerc ar unwaith os bydd unrhyw newidiadau i'w hamgylchiadau sy'n effeithio ar eu cymhwysedd i fod yn ymddiriedolwr.

Busnes y Sefydliad

15. Mae gan aelodau gyfrifoldeb dros sicrhau bod y corff llywodraethu'n cyflawni rheolaeth dros gyfeiriad strategol y sefydliad trwy broses gynllunio effeithiol, a bod perfformiad y sefydliad yn cael ei asesu'n ddigonol yn erbyn yr amcanion mae'r corff llywodraethu wedi'u cymeradwyo.

Disgrifiad Rôl ar gyfer Aelodau Annibynnol

16. Anogir aelodau i sefydlu perthnasoedd gwaith adeiladol a chefnogol gyda gweithwyr y sefydliad y byddant yn dod i gyswllt â nhw. Fodd bynnag, rhaid i aelodau adnabod y gwahaniaeth iawn rhwng llywodraethu a rheolaeth weithredol ac osgoi cymryd rhan mewn rheolaeth weithredol dydd i ddydd y sefydliad.

Y Rôl Allanol

17. Efallai y bydd gofyn i aelodau gynrychioli'r corff llywodraethu a'r sefydliad yn allanol. Byddant yn cael eu briffio'n llawn gan y sefydliad i'w galluogi i ymgymryd â'r rôl hon yn effeithiol.

18. Efallai y bydd gofyn i aelodau ddefnyddio eu dylanwad personol a sgiliau rhwydweithio ar ran y sefydliad am ystod o resymau, yn cynnwys cefnogi cyflogadwyedd myfyrwyr ac i ddenu grantiau a buddsoddiad.

19. Efallai y bydd gofyn i aelodau chwarae rôl wrth gysylltu â rhanddeiliaid allweddol a'r sefydliad. Byddant yn cael eu briffio'n llawn gan y sefydliad i'w galluogi i ymgymryd â'r rôl hon yn effeithiol. Fodd bynnag, rhaid ymgymryd â'r rôl hon yn benodol mewn ffordd gydlynol, ofalus gydag uwch swyddogion eraill a staff y sefydliad.

Personol

20. Disgwylir i aelodau feddu ar ymrwymiad personol cryf i Addysg Bellach ac Uwch ac i werthoedd, nodau ac amcanion y sefydliad.

21. Disgwylir i aelodau weithredu'n deg ac yn amhleidiol bob amser er lles y sefydliad yn ei gyfanrwydd, gan ddefnyddio dyfarniad annibynnol a chadw cyfrinachedd fel y bo'n briodol.

22. Mae'r sefydliad yn ymrwymo i greu cymuned dysgu a gweithio cynhwysol sy'n rhydd rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, a lle caiff yr holl staff a myfyrwyr eu cefnogi, eu parchu a lle gallant ddangos eu potensial. Y nod yw cyflawni diwylliant o ddiwylliedd lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a lle mae yna berthnasoedd rhyngpersonol da. Disgwylir i aelodau'r corff llywodraethu arddangos yr un ymddygiad a ddisgwylir gan staff a myfyrwyr.

23. Ar ôl cael eu penodi rhaid i aelodau gymryd rhan yn y cyflwyniad cynefino a drefnir ar eu cyfer gan y sefydliad. Ar ôl hynny, disgwylir iddynt gymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau datblygu a drefnir gan y sefydliad i'w cefnogi yn eu rôl, a gellir darparu'r rhain yn fewnol neu'n allanol, ac mewn proses werthuso flynyddol.

Manyleb yr unigolyn

24. Disgwylir i bob aelod annibynnol allu dangos y canlynol:

- Dealltwriaeth o Egwyddorion Nolan a pharodrwydd i gadw atynt.
- Ymrwymiad i, a brwdfrydedd at werthoedd a gweledigaeth y sefydliad, ei ymchwil am ragoriaeth, ei genhadaeth ddinesig a'i uchelgeisiau strategol yng Nghymru a thu hwnt.
- Gwerthfawrogiad o'r gwerth a ddaw'r sefydliad i'w gymunedau yng Nghymru a'r DU, ac yn rhyngwladol.
- Gallu i gyfrannu at gyfoethogi profiad myfyrwyr y sefydliad a'u cyflogadwyedd.
- Ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Ymrwymiad i natur ddwyieithog y sefydliad ac i gyfoethogi iaith a diwylliant Cymru.
- Unplygrwydd, beirniadaeth gadarn a meddwl ymholgar.
- Y gallu i feddwl yn strategol, gwneud dyfarniadau gwybodus, dadansoddi gwybodaeth ac yna herio'n adeiladol fel ffrind beirniadol, yn cynnig cyngor cadarn a doeth.
- Y gallu i gefnogi a gweithio'n effeithiol gydag aelodau eraill y corff llywodraethu ac uwch swyddogion y sefydliad.
- Sgiliau cyfathrebu da.

Disgrifiad Rôl ar gyfer Aelodau Annibynnol

- Argaeledd i baratoi ar gyfer a mynychu cyfarfodydd corff llywodraethu a phwyllgorau.
- Ymrwymiad i gymryd rhan yng ngwaith ehangach y sefydliad trwy fynychu digwyddiadau priodol.
- Gallu a pharodrwydd i hyrwyddo'r sefydliad yn y gymuned ehangach.

25. Yn ogystal, disgwylir i aelodau feddu ar brofiad o un maes neu fwy a bennir gan y corff llywodraethu yn unol â'i ofynion o ran gallu a sgiliau a phrofiad aelodau presennol. Mae'r corff llywodraethu wedi penderfynu bod y meysydd arbenigedd a ganlynol yn cynrychioli ei brif ofynion o ran gallu: cynllunio strategol; busnes a chyllid; cyfrifeg, archwilio a risg; taliad cydnabyddiaeth; pensiynau; entrepreneuriaeth; codi arian; ystadau a datblygu eiddo; cydraddoldeb ac amrywiaeth; materion cyfreithiol a rheoliadol; adnoddau dynol; addysg; yn arbennig sicrhau ansawdd addysg uwch a gwaith rhyngwladol; y Gymraeg a dwyieithrwydd; cenhadaeth ddinesig a pherthnasoedd allanol; marchnata.

Ymrwymiad o ran amser a thaliad cydnabyddiaeth

26. Bydd yr ymrwymiad o ran amser yn amrywio, ond amcangyfrifir y bydd tua 8 – 15 diwrnod y flwyddyn i baratoi at gyfarfodydd a'u mynychu ac i fynychu digwyddiadau.

27. Nid yw aelodaeth y corff llywodraethu yn cael taliad cydnabyddiaeth ond fe all aelodau, drwy'r gweithdrefnau a bennir gan y Clerc, adennill costau teithio a chostau tebyg a gyfyd wrth ymgymryd â busnes y corff llywodraethu.

Dyddiad cymeradwyo gan y Cyngor: 28 Ionawr 2021

Dyddiad effeithiol: 1 Chwefror 2021

Fersiwn: 1.0